



taith uwchdir PENMAENMAWR

ehangwch eich gorwelion...

- Taith Gylch
- Meini Hirion
- Golygfeydd Arfordirol



Fe fydd y llyfryn hwn yn rhoi cymorth i chi ddarganfod hanes y tirlun uwchben Penmaenmawr. Ar hyd y daith mae pump safle o ddiddordeb. Mae'r llyfryn hwn yn eich tywys i bob safle ac yn rhoi feithiau diddorol am yr ardal o'ch cwmpas.

SUT I GYRRAEDD

O'r Orsaf: cerddwch i fyny Paradise Road i'r groesffordd yng nghanol y dref. Croeswch y ffordd i Fernbrook Road a maes parcio'r llyfrgell ar eich dde.

Ffôn: 08457 48 49 50

www.nationalrail.co.uk

O'r arhosfan bws: cerddwch i'r groesffordd yng nghanol y dref. Trowch i fyny i Fernbrook Road a maes parcio'r llyfrgell ar eich dde.

Ffôn: Traveline Wales 0871 200 22 33

www.traveline-cymru.info

Efo Car: dilynwch yr A55 o'r gorllewin i gyffordd 15a / o'r dwyrain cyffordd 16 i Benmaenmawr. Dilynwch y brif ffordd at y groesffordd ger y goleuadau traffig yng nghanol y dref. Trowch i fyny Fernbrook Road gan barcio ym maes parcio'r llyfrgell ar eich ochr dde.

Linell Ffôn Ymholiadau Cludiant Cyhoeddus: 01492 575412 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

Gwybodaeth am y daith

Tirwedd: dringo a disgyniad serth

Pellter: 9 cilometr, 5 ½ milltir.

Efo'r llwybr dewisol ychwanegwch 2.3 cilometr/1.5 milltir.

Amser: 3 ½ awr. Efo'r llwybr dewisol ychwanegwch awr.

Llwybrau: lonydd, traciau a llwybrau glaswelltog.

Cŵn: mae'n rhaid cadw cŵn dan reolaeth tyn.

Map: Explorer OL17.

Cyfeirnod grid dechrau a gorffen:

Maes parcio y llyfrgell SH719 763.

Lluniaeth: siopau, bwytai a thafarnau lleol.

Bras amcan yn unig yw'r amseroedd a pelteroedd

Edrychwch ar y tywydd ar:

www.mountainweatherwales.org

Cofiwch y gall y tywydd fod yn gyfnewidiol.

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM:

Stori Pen Cyf

www.storipen.co.uk / 01492 623970

Penmaenmawr

www.penmaenmawr.com

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

eryri-npa.gov.uk / 01766 770274

Tir mynediad agored

www.ccw.gov.uk



Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda Parchwch. Diogelwch. Mwynhewch.



Edrych tuag at Ynys Seiriol a Sir Fôn o Safle 1.

DECHRAU'R DAITH I SAFLE 1 LLWYBR Y JIWBILÛ - SH 731 759

O faes parcio y llyfrgell cerddwch i fyny Fernbrook Road. Dilynwch y ffordd i'r chwith i gymryd y drofa i'r dde i fyny Groesffordd Lane. Ar ben y lôn ewch yn syth ymlaen ac i fyny Mountain Lane. Dilynwch Mountain Lane, dros y grid gwartheg nes i chi gyrraedd y ddau biler carreg a Safle 1.



Chwareli Penmaenmawr.

Adeiladwyd y pileri hyn yn 1888 i nodi agor Llwybr y Jiwbilû. Agorwyd y llwybr cylch ar gyfer ymwelwyr a oedd yn aros yn nhref gwyliau poblogaidd Fictoraidd Penmaenmawr fwynhau y golygfeydd panoramig.

SAFLE 1 I SAFLE 2 MAEN CRWN - SH 731 749

O Safle 1 cerddwch i fyny'r trac. Lle mae'n fforchio'n ddwy ewch ar hyd y trac ochr dde. Dilynwch y trac heibio i fferm ar eich chwith ac ewch drwy giât.

O'ch blaen mae Tal-y-fan, i'ch chwith mae Taith Uwchdir Pensychnant a Mynydd y Dref y tu cefn i chi. Ewch yn eich blaen ar hyd y trac. Ewch heibio troad Llwybr y Gogledd i fynd drwy giât. Yn y cae ar eich chwith fe welwch Maen Crwn.



Tal-y-fan.

SAFLE 2 I SAFLE 3 MEINI HIRION - SH 723 746

Ewch ymlaen heibio Bryn Derwydd ar eich dde ar hyd y lôn goed. Yn union cyn y goeden olaf dilynwch cyfeirbwyntiau Llwybr y Gogledd i'r dde. Ewch drwy'r cae a dilynwch y cyfeirbwyntiau hyn heibio arwyddbost ac i fyny i'r chwith. Byddwch yn gweld cylch bychan pum carreg ar eich chwith ac o'ch blaen fe welwch Cylch y Derwyddon.

Beth am drïo daith newydd?

Am ragor o wybodaeth ar Llwybr y Gogledd a Teithiau Uwchdir eraill ymwelwch a:
www.conwy.gov.uk/cefnngwlad



Maen Crwn



Cylch o bump meini carreg.



Meini Hirion

Oeddech chi'n gwybod?

Cafodd Ynys Seiriol ei henwi ar ôl mynach a oedd yn byw yno yn y 6ed ganrif.

Oeddech chi'n gwybod?

Mae'r gwenithfaen wedi cael ei chwarelu yma ers 1830. Mae'r hen weithfeydd ar y chwith bellach wedi'u tirlunio.

Oeddech chi'n gwybod?

Mae'r cylch bychan o bump carreg yn dyddio o 1300 – 1000 C.C. Roedd arwyneb y cylch wedi ei orchuddio gan gwards. Ellwch chi ddychmygu pam fod hyn wedi cael ei wneud?

Oeddech chi'n gwybod?

Cadarnhaodd y cloddio yn 1958 bod y cylch cerrig yn perthyn i gyfnod cynnar Oes yr Efydd, tua 1450 - 1400 C.C. Mae hyn yn mil o flynyddoedd cyn i'r Derwyddon ddod i'r rhan hon o Gymru. Felly mae'r enw saesneg ar y cylch yn rhoi cam argraff.

Mae posib meddwl am Meini Hirion fel gylchfan hynafol. Roedd llwybrau hynafol o'r gorllewin a Llanfairfechan yn croesi yma i Bwlch y Ddeufaen ac i'r dwyrain at Ddyffryn Conwy. Yn yr oes efydd cynnar roedd masnachwyr yn dod a copr a metalau eraill o Iwerddon.

HANES Y GARREG


Fod Maen Crwn wedi cael ei symud ai siapio gan rhewlif. Mae felly yn cael ei alw yn 'dyfod'.

Credir fod pobl tua 4000 o flynyddoedd yn ôl wedi rhoi y garreg ar ei thraed i nodi'r llwybr hynafol a oedd yn croesi'r dyffryn o'r fan hon i lawr i Ddyffryn Conwy.

Tu cefn i Maen Crwn fe welwch dyffryn bas y Gyrrach. Mae wedi ei greu gan rewlif. Mae posib gweld rhai ô'r maeni dyfod a gafodd eu gadael wrth i'r rhewlif gilio ddiwedd Oes yr Iâ. Mae'r meini yma wedi cael eu defnyddio a defnyddio eto gan pobl.

Defnyddiwyd y meini hyn yn ystod y cyfnod Neolithig a'r Oes Efydd i adeiladu cylchoedd seremonïol a thomenni claddu. Yn ystod yr Oes Haearn cawsant eu defnyddio fel sylfaeni'r cytiau crwn. Yn ystod y 19eg ganrif defnyddiwyd y meini i adeiladu waliau sych sy'n amgáu'r ffriddoedd.

Cyn y 19eg ganrif fe fuasech wedi gweld dau gylch o feini o'r fan yma. Ers hynny mae'r meini wedi cael eu defnyddio i adeiladu y waliau cerrig sych.



CARTREF MEWN WAL CERRIG SYCH

Oeddech chi'n gwybod?

Mae amrywiaeth o drychfilod, pryfaid cop, gwarchod y lludw, y miltroed, gwenyn a'r gwenyn meirch yn hoffi byw mewn wal cerrig sych. Maent hefyd yn rhannu eu cartref gyda'r llyffant ddu, neidr ddefaid, llygoden y gwair a llygoden y maes.

Mae waliau cerrig sych yn fannau torheulo gwych i ymlusgiaid fel y madfall gyffredin. Maent yn hoffi torheulo yn yr haul yn ystod y bore a'r prynhawn.

Os edrychwch yn fanwl ar wal cerrig sych fe welwch cen. Mae cen yn arwydd cynnar o fywyd. Maent yn tyfu orau yn llygad yr haul yn cefn gwlad sy'n rhydd o lygredd.

SAFLE 3 I SAFLE 4 SH 722 747 CYLCHOEDD CERRIG

Dilynwch y llwybr ar ochr dde'r cylch. Anelwch at y pentwr o gerrig o'ch blaen a byddwch yn gweld cylch cerrig arall ac yna chlawdd cylch o gerrig rhydd. Ewch at y cylchoedd cerrig.

Mae'r cylch cyntaf yn edrych fel casgliad blêr o feini mawr. Canfyddodd cloddïad 1958-9 dwy siambr gladdu tair ochr, hynny yw, llechfeini wedi eu gosod i fyny gan ffurfio gwagle. Roedd corfflosgiad ym mhob un ohonynt. Roedd haen o gerrig cwarts yn selio un ohonynt.

Yn yr un ardal, darganfuwyd hefyd aelwyd hirgron gyda cherrig fflat wedi'u gosod arni, fel petai i ddiffodd y tân; pydew tân yn llawn golosg a bwyell garreg Graiglwyd. Mae'r safle'n dyddio o tua 1130 C.C.

Fel rydych yn cerdded heibio yr ail gylch fe welwch cylch 8 troedfedd o led o gerrig rhydd. Cloddiwyd y cylch yn 1958-59. Unwaith eto darganfuwyd twll wedi ei orchuddio a llechfaen bychan yn erbyn ymyl gogleddol mewnol y cylch.

Roedd yn cynnwys wrn wedi ei addurno yn llawn o bridd wedi ei losgi ond ni chafwyd hyd i unrhyw olion o gladdu yno. Roedd pridd wedi ei losgi hefyd o dan yr wrn ac o'i amgylch a chafodd tân ei gynau ar y gorchudd o lechfaen. I'r de-ddwyrain, unwaith eto yn erbyn yr ymyl mewnol, cafwyd hyd i weddillion amlogedig oedolyn bychan. Roedd yr esgyrn wedi'u gwrthio i dwll bychan yng ngherrig yr ymylfaen mewnol ac wedi'u seilio efo fflawiau cerrig.

I'r gogledd-ddwyrain, ychydig o droedfeddi oddi wrth lle cafwyd hyd i'r pridd wedi ei losgi, gosodwyd llechfeini yn ofalus yn erbyn yr ymylfaen mewnol ar ffurf cadair freichiau fechan! Nid ydym yn gwybod pam cafodd hyn ei wneud. Awgrymwyd y gallai fod yn sail i ddelw neu dotem pren. Mae'r cylch yn dyddio o tua 1405 C.C.

SAFLE 4 I SAFLE 5 GRAIGLWYD - SH 721 750

O'r pentwr o gerrig cerddwch ymlaen ac i'ch dde gan anelu at y wal gerrig oddi tanoch. Wrth y wal trowch i'r dde a dilynwch y llwybr i gornel y wal. Trowch oddi ar y llwybr i'r chwith yma a dilyn y wal at giât fochyn. Ewch drwy'r giât a thros bont. Wrth y drofa cyntaf yn y ffordd byddwch wedi cyrraedd Safle 5. Cymerwch y llwybr isaf i lawr ochr y bryn i giât fochyn y tu ôl i fferm Graiglwyd.

I fyny ac i'r chwith mae Graiglwyd. Roedd galw mawr am fwyell cerrig gan mai dyma oes y ffermwyr cyntaf a oedd yn clirio'r tir i blannu cnydau. I wneud hyn roeddynt angen y fwyell carreg. Byddai dynion yn cerfio'r bwyelli allan o blociau o garreg oedd newydd cael ei chwarelu. Dyma "Ffatri Bwyell Cerrig!".



Meini Hirion gyda Pen y Gogorth yn y cefndir.



Safle 4.



Graiglwyd.



Bwyell carreg Graiglwyd

Oeddech chi'n gwybod?

Gafodd hanner y cylch ei gloddio. Darganfyddwyd siambr gladdu yn y canol wedi ei gorchuddio gan faen capan. Ynndi roedd wrn mawr yn cynnwys gweddillion amlogedig plentyn tua un ar ddeg oed.

Gerllaw mewn pydew bas cafwyd hyd i wrn arall a'i ben i lawr. Roedd yn cynnwys esgyrn amlogedig plentyn tua deuddeg oed yn ogystal â chyllell efydd fechan. Mewn pydew bas arall cafwyd hyd i dri ar ddeg o gerrig hogi tywodfaen ac arnynt roedd esgyrn dynol wedi'u hamlosgi a'u malu'n fân. Roedd wyneb y cylch wedi ei orchuddio efo cerrig gwynion cwarts.

Oeddech chi'n gwybod?

Y fran goesgoch yw'r unig aderyn o deulu'r fran sydd â phig a choesau coch. Mae'n defnyddio ei big hir a crwn i ddarganfod drychfilod yn y ddaear.

Mae ceiliog clochdar y cerrig gyda bron oren-goch llachar a pen du. Gallwch eu gweld yn aml ar lwyni eithin a rhedyn neu ar waliau cerrig sych. Hwyrach y gwnewch clywed clochdar y cerrig gyda'i chan gwahanol. Mae'n swnio fel dau garreg yn cael ei rwbio a taro yn erbyn ei gilydd.

Oeddech chi'n gwybod?

Roedd Graiglwyd yn safle i un or ffatrioedd bwyelli cerrig mwyaf ym Mhrydain. Cafodd y bwyelli hyn a rhai eraill a gafodd eu llunio ar lethrau ymhellach i'r gorllewin uwchben Llanfairfechan, eu hallforio i bob rhan o Brydain.

Cafwyd hyd i rai ohonynt yn Ne Cymru, Sir Caergrawnt, Hampshire, Sir Efrog a safleoedd pwysig fel Windmill Hill, West Kennet Avenue, a ger Woodhenge yn Wiltshire.

Mae'r graig a ddefnyddiwyd i lunio'r bwyelli, sef craig igneaid yn fflawio'n hawdd. Felly mae'n rhaid bod llunio'r bwyelli yn waith anodd a thringar yn enwedig o gofio mai carreg arall oedd unig offer oedd ganddynt, i wneud hyn. Mae hyn yn egluro'r nifer enfawr o fwyelli wedi torri a heb eu gorffen a gafodd eu canfod wrth gloddio'r safle yn yr 1920au.

Roedd y bwyelli yn cael eu llunio'n fras yma ac yna eu hogi a'u caboli yn rhywle arall.

TAITH DDEWISOL LLWYBR JIWBILÛ O AMGYLCH FOEL LUS

Tirwedd: llwybr lefel. Ychydig o ddringo.

Pellter: 2.3 Cilometr, 1.5 milltir.

Amser: 1 awr.

Llwybrau: trac cul a llwybrau glaswellt.

Ewch rhwng y ddau golofn a dilynwch y trac o amgylch Foel Lus. Wrth fainc, tua dwy ran o dair o'r ffordd, trowch i'r dde ar hyd llwybr i ddilyn y peilonau o amgylch Foel Lus.

Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr hwn i ymuno â'r prif llwybr. Gallwch droi i'r dde a dychwelyd i Safle 1 neu trowch i'r chwith a cherdded i Safle 2. Am ragor o wybodaeth am y llwybr yma gweler drosodd.



Ehedydd

Cadwch llygad allan am y cigfran, bran goesgoch, clochdar y cerrig, ehedydd a chorhedydd y waun. Hwyrach y fyddwch yn digon lwcus i weld hutan y mynydd.

Maent yn hedfan drost yr ardal yma wrth iddynt fynd i'r Dwyrain Canol a Gogledd Affrica drost y gaeaf.

SAFLE 5 | MAES PARCIO Y LLYFRGELL

Cymerwch y llwybr isaf i lawr ochr y bryn i giât fochyn y tu ôl i fferm Graiglwyd. Dilynwch y trac o amgylch ochr dde'r adeilad i Graiglwyd Road. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i drofa ar y chwith i Barc Merton. Cerddwch i lawr y parc a throwch i'r chwith i ddilyn Fernbrook Road i faes parcio'r llyfrgell.

BETH AM YMWELD A AMGUEDDFA NEW YORK COTTAGES?

O maes parcio y llyfrgell cerddwch tuag at canol y dref a'r groesffordd. Cymerwch troad i'r chwith ar hyd Bangor Road. Ewch yn eich blaen nes cyrraedd Amgueddfa 'New York Cottages'. Mae'r arddangosfa wedi ei gynnal yn un o bythynnod y chwarelwyr. Yma fe welwch ddarganfod hanes Penmaenmawr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen.

Pam adeiladwyd y bythynnod a sut y gawsant eu henw?

Adeiladwyd y bythynnod gan berchnogion y chwarel yn 1850 i letya'r chwarelwyr a'u teuluoedd yn ystod cyfnod o ehangu yn y chwarel a phrinder dybryd o lety.


Ond oherwydd dirywiad sydyn yn y chwarel bu sawl chwarelwr yn ystyried mudo i'r America. Felly pan ofynnwyd i'r adeiladwyr pa enw i'w roi i'r bythynnod, Awgrymwyd 'New York' gan fod pawb yn sôn am y ddinas pryd hynny.

Ar Agor: 1 Mehefin - 30 Medi. Dydd Mercher, lau a Gwener 2.00yb - 4.00yb

Grwpiau drwy gydol y flwyddyn drwy apwyntiad.

Mynediad Am Ddim.
Mynediad i bob man i gadeiriau olwyn.
Mae maes parcio bach y tu ôl i'r bythynnod.

Ffôn: 01492 575571



Amgueddfa New York Cottages.



Enghraifft o Bwyell Cerrig yn yr Amgueddfa.



Edrych dros Benmaenmawr tuag at Sir Fôn.



Dwygyfylchi, Penmaen bach i'r dde gyda'r Gogarth yn y cefndir.

LLWYBR JIWBILI

Oeddech chi'n gwybod?

- 1 Bod y llwybr o amgylch Foel Lus yn dilyn y cyfuchlin 800'/243 m.
- 2 Gafodd y llwybr ei hagar ar Fehefin 23 1888.
- 3 Yr enw gwreiddiol arno oedd Llwybr Foel Lus, ond cafodd ei enwi'n Llwybr y Jiwibili i ddathlu Jiwibili y Frenhines Victoria yn 1887.
- 4 Bu'n rhaid i'r contractwr Joseph Jones a'i ddau gynorthwy-ydd gloddio'r llwybr o'r sgrî rhydd y mynydd efo caib a rhaw.
- 5 Dim ond 4 mis a gymerwyd i gwblhau'r gwaith. £50 oedd cost y cyfan ynghyd â £5 ychwanegol i adeiladu 2 golofn sy'n nodi'r fynedfa.

Roedd y llwybr yn gyfleuster hamdden ychwanegol mewn tref ymwelwyr a oedd yn tyfu'n gyflym. Roedd W.E. Gladstone a fu'n Brif Weinidog Prydain bedair gwaith, yn rhannol gyfrifol am y twf yn mhoblogrwydd Penmaenmawr gan ei fod yn treulio'i wyliau'n aml yn y dref.

Fedrwch chi ddod o hyd i'r garreg efo tri thwll ynddi?

Dyn sydd wedi drilio y tyllau yma. Fedrwch chi ddyfalu pam ei fod wedi gwneud hyn? Roedd yn ceisio hollti'r garreg yn ei hanner. I hollti y garreg mae llinell o dyllau a elwir yn 'pool holes' yn cael ei drilio. Mae dau strip o fetal a elwir yn 'feathers' yn cael eu rhoi ym mhob twll. Yna mae cŷn a elwir yn 'plug' yn cael ei rhoi yn y twll rhwng y ddau strip metal. Mae hwn yn cael ei forthwyllo yn araf i fewn i'r tyllau i hollti'r graig. Am ryw reswm dydi'r graig yma ddim wedi hollti ac mae posib gweld hen 'plug and feather'.

Stori y plas a gafodd ei boddi

Pan mae'r llanw yn isel edrychwch drost Trwyn-yr-Wylfa a tuag at y môr (gweler y map). Mae posib gweld creigiau yn y tywod. Dywedir mai sylfaeni palas tywysog drwg o'r enw Helyg oedd y rhain. Fel cosb, boddwyd ei dir i gyd a chafodd ei balas ei ddiestrio. Yn ôl y chwedl, rhedodd Helyg a'i deulu i fryn cyfagos o'r enw Trwyn-yr-wylfa.

Tua dau drydydd o'r ffordd o gwmpas Foel Lus cewch golygfa o Mynydd y Dref a Bwlch Sychnant.

Yn wreiddiol roedd llwybr ceffylau pwn yn dod i lawr y dyffryn. Agorwyd y ffordd presennol yn 1772 fel rhan o'r ffordd dyrpeg newydd.

Saif Capelulo yng ngwaelod y dyffryn. Enw arall arno yw yr Hen Bentre. Mae ond yn dyddio o 1772. Datblygodd y pentref o amgylch tair tafarn a gafodd eu hadeiladu pan agorwyd ffordd newydd Sychnant.

Grug, eithin a llus Rydych wedi eich amgylchu!

Os ydych yn cerdded ar rhostir yr ucheldir yn gynnar yn yr hydref fe fydd y ddaear yn edrych fel carped pinc a phorffor cymysg a smotiau melyn

Llus Mae aeron du bwytadwy yn cael ei gynhyrchu yng Ngorffennaf ac Awst. Maent yn gwneud jam blasus. Maent hefyd yn fwyd i adar y rhostir a mamaliaid bychain. Mae gwyddonwyr meddygol yn credu fod llus yn gallu gwella'r golwg.

Eithin Gallwch chi aroglu cnau coco? Dyma beth mae eithin yn aroglu fel. Mae dau rywogaeth i'w cael yn yr ardal sef yr eithinen fân a eithin. Oherwydd fod y ddau yn blodeuo ar adegau gwahanol, mae hyn yn golygu bod blodau i'w gweld drwy gydol y flwyddyn.

Grug Mae posib gweld dau fath o grug yn yr ardal yma:

1. Grug. Dyma blanhigyn byr bytholwyrdd. Mae ganddo flodau bychain pinc-porffor sy'n ffurfio pigau ar ben y coesau.

2. Grug Clochog. Mae'r blodau ychydig yn fwy na'r grug ac maent ar ffurf cloch. Maent hefyd yn binc a phorffor tywyllach sy'n glystyrau ar ben y coesau.

Oeddech chi'n gwybod?

Fod 75% o rostir yr ucheldir y byd i'w gael ym Mhrydain ac Iwerddon.



Eithin



Grug



Llus



Grug Clochog



PENMAENMAWR

A55

CONWY
 CYNGOR BWRDEISTREF SIRIOL
 COUNTY BOROUGH COUNCIL

Uchder mewn metrâu | Height in metres

800m
600m
400m
200m
100m
50m
20m
10m
5m
2m
1m

Alwedd | Key

1 km
500 m

© Crown copyright. All rights reserved.
 Conway County Borough Council 100023280 2010
 © Intermap Technologies Inc. Cadw'r pob hawl
 Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy 100023280 2010
 © Intermap Technologies Inc. Cadw'r pob hawl
 © Crown copyright. All rights reserved.
 Conway County Borough Council 100023280 2010
 © Intermap Technologies Inc. All rights reserved DCCON100 2010